**Erthygl a ymddangosodd yn y cylchgrawn BARN – Gorffennaf 2022**

YSGOL GYMRAEG LLUNDAIN 1958 – 2022

Criw o dadau a ddaeth at ei gilydd, er mwyn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg i blant Llundain, a ddechreuodd Ysgol Gymraeg Llundain a dathlodd ei phenblwydd yn drigain oed yn 2018. Mae hi wedi bod ar grwydr o gwmpas prifddinas Lloegr dros y blynyddoedd cyn cyrraedd ei chartref presennol yng Nghanolfan Gymdeithasol Hanwell yng Ngorllewin Llundain. Hen wyrcws yw'r ganolfan lle bu Charlie Chaplin gynt yn ddisgybl ac mae na lun gwengar ohono yn y cyntedd.

Yn goron ar y benblwydd arbennig yma, derbyniwyd adroddiad diweddar wrth Ofsted yn diffinio'r ysgol fel un Da gydag elfennau Rhagorol. Nid bod angen rhyw gorff biwrocrataidd i gadarnhau'r hyn mae'r rhieni yn deimlo'n barod am yr ysgol hynod hon.

Fe ddechreuodd ein cysylltiad teuluol ni gydag Ysgol Gymraeg Llundain, pan oedd y mab yn naw mis oed, wrth i ni ymuno á chriw brwdfrydig Cylch Chwarae'r Ysgol. Roedd yr adeilad yn Harlesden, un o ardaloedd tlota Llundain, ddim yn edrych yn rhy addawol o'r tu allan ond roedd yna groeso anferth yn ein disgwyl wedi i ni groesi'r trothwy. Ynys o Gymreictod mewn môr o Seisnigrwydd

O'r cychwyn cyntaf fe wyddai ei dad (Sais gyda llaw) a finne ein bod wedi ffeindio lle unigryw iawn. Roedd yr egwyddor o ddysgu drwy chwarae, y pwyslais ar y celfyddydau a'r awyrgylch deuluol hyfryd yn ddelfrydol i unig blentyn fel Macsen. Ac roedd ei weld yn magu'r arfer o ddwyieithrwydd naturiol yn wefreiddiol - yma roedd y Gymraeg yn iaith fyw a chyhyrog ac yn bwysicach oll yn iaith i'w ddefnyddio tra'n chwarae gyda'i ffrindiau,.

Yn ystod ein cyfnod ni yno, fe symudodd yr ysgol o un ystafell orlawn yn Ysgol Stonebridge yn Harlesden, i ddwy adeilad llawer mwy hawddgar ar ochr arall y campws. Yno am y tro cyntaf roedd gan y plant fuarth glaswelltog i chwarae arno, tir i dyfu llysiau a blodau a digon o le i rhedeg a chicio pêl. Yno fe fu'r rhieni yn paentio, yn codi silffoedd a brwydro'n barhaus gyda'r gwiwerod drygionus a oedd yn peri trafferth ofnadwy ar dô'r ysgol.

Roedd cael adeiladau mwy yn golygu bod gwell cyfle gyda ni i gynnal achlysuron i gymdeithasu ac i godi arian. Ac i werthu'r tocynnau raffl bondigrybwyll oedd ar ben bob stori yn yr Ysgol Gymraeg. Dw i'n cofio cyngerdd rhyfeddol drwy garedigrwydd Caryl Parry Jones a'i Band. A Caryl yn cyhoeddi fod yr awyrgylch, agos atoch chi, naturiol Gymraeg fel bod nól yn Sir Aberteifi yn y pumdegau!

Cafwyd amryw o ymweliadau gan Feirdd Cenedlaethol Plant Cymru yn ystod ein cyfnod ni yn yr Ysgol, yn ogystal a sêr Cyw a Stwnsh a stondin Chyngor Llyfrau Cymru. Ac fe gafodd y plant gyfle i fynychu gwasanaeth blynyddol Gwyl Ddewi yn San Steffan a'r Plygain yn Capel Castle Street.

Doedd hi ddim yn fêl i gyd yn yr Ysgol wrth gwrs. Roedd y poeni parhaol am godi arian yn faich sylweddol ar ysgwyddau'r rhieni. A man y man cyfadde – roedd hi'n dipyn o ymdrech i ddanfon y plant i'r ysgol. Teithiai rhai rhieni yn anhygoel o bell (o Watford a St Albans, Reading a Barnes) i ddod i'r ysgol bob dydd. Roedd hi'n rhwydd iawn i finne yn byw yn Kilburn i deithio am chwarter awr yn y car bob dydd, ond roedd rhai rhieni'n teithio am oriau drwy draffig enwog yr M1 a'r North Circular,

ac yn gwneud tipyn o aberth i gyrraedd yr Ysgol. Mi fysai wedi bod gymaint yn rhwyddach i nifer o'r rhieni hyn i ddanfon eu plant i'r ysgol leol – heb boeni am deithio, am godi arian i dalu am y pethau mwyaf elfennol - y fenyw glanhau, llyfrau dosbarth – weithiau hyd yn oed i dalu'r athrawon!

Ac roedd pwysau rhyfeddol hefyd ar ein hathrawon – yn gweithio gan fwyaf heb gefnogaeth system addysgiadol, ffurfiol, am oriau hir, o dan lach arolygwyr llywodraeth Seisnig nad oeddynt bob amser yn deall amcanion sylfaenol yr Ysgol. Diolch o galon i ymroddiad a brwdfrydedd athrawon fel Sian Edwards, Aeronwy Davies, Liz Vigar, Menna George, Sue Morgan a Matthew Davies, fe lwyddodd yr ysgol i frwydro drwy amseroedd go dymhestlog. A diolch arbennig hefyd i Sioned Bowen a David Parry Jones am eu cefnogaeth pan aeth pethau'n anodd.

Pam felly yr oedden ni fel rhieni'n mynnu danfon ein plant i ysgol a oedd bob amser yn gwegian ar ymyl y dibyn ariannol, a oedd yn chwyddo a chrebachu yn ól yr angen am addysg Gymraeg yn y Brifddinas ac oedd yn anghonfensiynol mewn gymaint o wahanol ffyrdd? Yn enwedig gan fod nifer o Gymry Llundain ddim yn dewis gwneud – yn dibynnu ar y Capel, neu nani o Gymru i feithrin dwyieithrwydd ar yr aelwyd?

Yn syml iawn roedd yna **ysbryd rhyfeddol ar waith** yn Ysgol Gymraeg Llundain, un sy'n parhau hyd heddiw yn ei chartref newydd yn Hanwell. Ysbryd sy'n ymfalchio yng Nghymreictod y plant ond sydd hefyd yn hapus i fod yn rhan o ddinas aml ddiwylliannol Llundain. A lle mae'r iaith Gymraeg yn teimlo'n naturiol, yn gyhyrog ac yn chwaraeus – yn rhan annatod o fywydau'r plant.

Fe gafodd fy mab blentyndod swynol ac unigryw yno. Cafodd brofi addysg gyfoethog, eangfrydig mewn awyrgylch deuluol a chefnogol. Fe ddysgodd y delyn a'r ffidil, fe gafodd befformio ar sawl llwyfan rhwysgfawr a dysgu llu o ganeon a cherddi. Fe brofodd holl firi a hwyl Eisteddfod yr Urdd a Gwersyll Langrannog. Aeth ar amryw o dripau ysgol gwych o gwmpas Llundain ac fe datblygodd yn blentyn hyderus a oedd yn mwynhau dysgu ac wedi arfer a mynegi ei hunan mewn awyrgylch adeiladol a chefnogol. Ac fe barodd yr hyder yma wrth iddo symud ymlaen i'w ysgol gyfun hefyd.

Ar ben hynny fe wnaeth Macsen ffrindiau oes yn yr Ysgol Gymraeg - ffrindiau sy'n rhan o'i fywyd hyd heddiw ac sy'n siarad llond ceg o Gymraeg gyda'i gilydd. Bu ei ddwyieithrwydd yn fantais anferth iddo yn ei ysgol gyfun yn Llundain – fel ei gyfeillion sy'n siarad Pwyleg, Somali neu Arabeg mae e'n teimlo ei fod yn un o ddinasyddion cosmopolitan y byd. Ac mae bellach yn astudio ieithoedd yn y Coleg hefyd.

Rydw i wedi parhau fy nghysylltiad gyda'r Ysgol. Ry'n ni'n hynod o falch fod cymaint o blant wedi dychwelyd i Gymru yn rhugl yn y Gymraeg dros y blynyddoedd diwethaf – yn slotio'n hapus i fewn i Ysgolion Cymraeg ar hyd a lled Cymru. Ac mae'r rhai sydd yn aros yn Llundain yn cyfoethogi'r bywyd Cymraeg yno hefyd. Ry'n ni'n ddiolchgar iawn i Lywodraeth Cymru am yr arian (o'r gyllideb ddiwylliannol) sy'n gwneud cyfraniad sylweddol i gynnal yr Ysgol. Ac wrth gwrs i'r rhieni diwyd dros y blynyddoedd a fu'n codi arian i lanw'r bwlch.

Hir oes i'r ysgol hyfryd hon.
Sioned Wiliam